Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

10/10/22

Annwyl riant/gwarcheidwad,

Diolch yn fawr i rieni Bl.11 a fynychodd y cyfarfod diweddar yn yr ysgol - mae copi o'r cyflwyniad yn y grŵp 'Blwyddyn 11' yn TEAMS eich plentyn. Rydym hefyd wedi gosod gwybodaeth bwysig ar sut i adolygu'n effeithiol ar wefan yr ysgol: https://www.bryntawe.swansea.sch.uk/parent-info_cy.php#revision/

Hoffwn eich atgoffa o ddyddiadau allweddol a gwybodaeth bwysig am yr arholiadau fydd yn digwydd ym mis Tachwedd ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 a Blwyddyn 12 sy'n ailsefyll. Fe ddylai eich plentyn fod wedi derbyn ei amserlen arholiadau bellach – os nad ydyn nhw, gofynnwch iddyn nhw fynd i weld eu tiwtor personol neu Mrs Rhian Davies (Swyddog Arholidau) am gopi.

| | **Dyddiadau'r arholiad** | **Sesiynau adolygu** | **Clwb Craidd (Maths a Cymraeg)** |
|---|---|---|---|
| **Rhifedd (Pawb ym Ml.11)** | Uned 1: Dydd Mawrth, **8.11.22**<br>Uned 2: Dydd Iau, **10.11.22** | **Nos Fawrth**: Grŵp dysgu Miss A Jenkins a Mrs Williamson<br>**Nos Fercher**: Grwpiau dysgu Mrs C Shanklin, Mr N Jones a Mr R Havard<br>**Nos Iau**: Grwpiau dysgu Mr Davies<br><br>Bydd pob sesiwn yn gorffen am 16.10. | **Nos Iau tan 16.15** yn Yst.Cymraeg 6 (cyfle i weithio trwy gyn-bapurau gyda chymorth o'r adrannau Craidd) |
| **Mathemateg (ailsefyll i Fl.12 yn unig)** | Uned 1: Dydd Llun, **11.11.22**<br>Uned 2: Dydd Mercher, **16.11.22** | Sesiwn cofrestru pob bore dydd Gwener.<br>Sesiwn ail eistedd pob dydd Gwener, Gwers 5 gyda Mr Jenkins | |
| **Cymraeg (ailsefyll i Fl.11)** | Uned 2: Dydd Gwener, **11.11.22**<br>Uned 3: Dydd Mawrth, **15.11.22** | **Nos Fawrth tan 16.15** yn Cymraeg 6 | |

Os ydych am fwy o wybodaeth am yr arholiad Rhifedd neu'r arholiad Cymraeg, mae croeso i chi gysyllt â Mrs Shanklin (Pennaeth Mathemateg) ShanklinC@hwbmail.net neu Miss Jones (Pennaeth y Gymraeg) JonesM1550@hwbmail.net neu ffoniwch yr ysgol ar 01792 560600.

**Ystafelloedd arholiad:**

Er gwybodaeth, mae JCQ (Joint Council for Qualifiacations) wedi tynhau eu rheolau ynglyn â disgyblion allan o'r brif ystafell arholiad ers Medi 2022. Dyma ddyfyniad o'r canllawiau newydd: *"Dyfernir goruchwyliaeth ar wahân o fewn y ganolfan lle mae gan ymgeisydd nam sylweddol a thymor hir. Er enghraifft, mae gan yr ymgeisydd gyflwr meddygol hirdymor,*

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

*cyflwr seicolegol hirdymor neu anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl hirdymor."*

Os ydych chi am drafod unrhyw beth o'r uchod, mae croeso i chi gysylltu drwy ebost ar Edwa-JoneR@hwbmail.net. Dymunwn bob dymuniad da i'r disgyblion wrth iddyn nhw baratoi at yr arholiadau ymhen mis – paratoi ydy'r allwedd y lwyddiant!

Yn ddifuant,

*Mrs Rhian Edwards-Jones*(Dirprwy Bennaeth)



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

10/10/22

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies